CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG
EDUCATION WORKFORCE COUNCIL

COFNODION TRYDYDD CYFARFOD AR HUGAIN
CYNGOR Y GWEITHLU ADDYSG

DYDDIAD: 18 Tachwedd 2021

LLEOLIAD: Microsoft Teams (cyfarfod rhithwir)

Yn bresennol:
Aelodau:

Angela Jardine	Sue Walker
David Williams	Steve Drowley
Gwawr Taylor	Rosemary Lait
Anne Pitman	Kelly Edwards
Kevin Pascoe	Clare Jones
Eithne Hughes	Jane Setchfield
Berni Tyler	Nicola Stubbins

Swyddogion:

Hayden Llewellyn	Prif Weithredwr
Elizabeth Brimble	Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer
Bethan Stacey	Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi
Lisa Winstone	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol
Beverley Curtis	Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (cofnodion)
Jess Tippins	Rheolwr Cyfathrebu CGA (arsylwi)
Lisa Jenkins	Swyddog Cofrestru CGA (arsylwi)

1. Croeso a sylwadau agoriadol

1.1 Croesawodd Angela Jardine (*Cadeirydd*) yr aelodau a'r swyddogion i drydydd cyfarfod ar hugain Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA).

1.2 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau, ond roedd tri aelod (Eithne Hughes, Gwawr Taylor a Dave Williams) wedi nodi presenoldeb rhannol oherwydd ymrwymiadau eraill nad ellid eu hosgoi.

1.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i nodi'r ddau arsylwr a oedd yn bresennol; Jess Tippins *(Rheolwr Cyfathrebu CGA)* a Lisa Jenkins *(Swyddog Cofrestru CGA)*

1.4 Nododd y Cadeirydd drefn y diwrnod gan gynnwys sesiwn breifat y Cyngor a sesiwn gynllunio flynyddol yr aelodau.

1.5 Atgoffwyd y Cyngor bod dau aelod newydd wedi'u penodi i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru i gymryd lle'r ddau aelod a oedd wedi ymddiswyddo yn gynharach yn y flwyddyn. Croesawodd y Cadeirydd Sue Walker a Nicola Stubbins i'w cyfarfod cyntaf o'r Cyngor ar ôl i'w tymor ddechrau ar 1 Hydref 2021. Dywedodd fod y ddau aelod wedi derbyn eu hyfforddiant sefydlu ddechrau mis Hydref.

1.6 Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r ddogfennaeth sy'n gysylltiedig â phroses adolygu flynyddol yr aelodau yn cael ei dosbarthu yn y flwyddyn newydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyngor nodi wythnos 28 Mawrth – 1 Ebrill 2022 ar y calendr cyfarfodydd pan gâi'r cyfarfod adolygu unigol gyda'r Cadeirydd ei drefnu. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, byddai'r aelodau yn cael mynegi a fyddai ganddynt ddiddordeb cael eu hystyried i'w hailbenodi am dymor arall ar y Cyngor o 1 Ebrill 2023. Byddai unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

1.7 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau sicrhau eu bod ar gael ar gyfer y diwrnod hyfforddi blynyddol a drefnwyd ar gyfer 28 Ebrill 2022. Nododd fod nifer o siaradwyr allanol eisoes wedi'u trefnu i fynychu.

1.8 Gwahodd y Prif Weithredwr i ymhelaethu ymhellach ar ymateb CGA i ymgynghoriad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc fel y trafodwyd yn CGA 43/21. Dywedodd fod swyddogion CGA sydd ag arbenigedd yn y maes wedi arwain ar y gwaith o ddrafftio'r ymateb ar ran y Cyngor oherwydd adeg y flwyddyn y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad a'r terfyn amser eithriadol o fyr i ymateb. Gwahoddodd yr aelodau i gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu Corfforaethol os ydynt yn dymuno gweld yr ymateb llawn. Roedd yr Aelodau'n fodlon nodi'r dull hwn.

2. Datganiadau o Ddiddordeb

2.1 Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Steve Drowley yn eitem agenda CGA 45/21 fel Cadeirydd ETS Cymru.

2.2 Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Kelly Edwards yn eitem agenda CGA 44/21 fel un o weithwyr Colegau Cymru.

2.3 Nid oedd unrhyw ddatganiadau pellach o ddiddordeb.

3. Gohebiaeth ac Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau ei bod yn siaradwr allweddol yng nghynhadledd Flynyddol Felite Cyngor Addysgu Iwerddon ar 2 Hydref 2021. Nododd fod darllediadau o'r digwyddiad ar gael ar wefan TCI pe bai'r aelodau'n dymuno gweld y pynciau dan sylw.

3.2 Nododd ei phresenoldeb yn y gynhadledd ar gyfer Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr y pedair cenedl a gynhaliwyd ar 4 a 5 Hydref 2021. Cynhaliwyd y gynhadledd o bell unwaith eto; y gobaith oedd y byddai cynrychiolwyr yn gallu cyfarfod wyneb yn wyneb y flwyddyn nesaf.

4. Cofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd gofnodion drafft cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021. Roedd yr Aelodau'n fodlon cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.

4.2 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5. Derbyn cael hysbysiad o unrhyw faterion y dymunai aelodau eu codi mewn perthynas â'r eitemau 'er gwybodaeth' ar yr agenda (19-23)

5.1 Ni nodwyd unrhyw faterion.

6. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021

6.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr gofnodion y Pwyllgor Gweithredol. Cadarnhaodd i'r aelodau fod canlyniadau'r arolwg cenedlaethol o'r gweithlu wedi'u cyhoeddi ym mis Hydref.

6.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

7. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021

7.1 Cyflwynodd Steve Drowley, Cadeirydd y Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio y cofnodion a nododd nad oedd unrhyw faterion yn codi i'w tynnu at sylw'r aelodau nad oeddent wedi'u cynnwys yn ddiweddarach ar yr agenda.

7.2 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gan yr aelodau.

8. Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Chraffu a gynhaliwyd ar 23 Medi 2021 a chofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2021

8.1 Cyflwynodd Clare Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu y cofnodion hyn a nododd fod y Pwyllgor wedi cael sesiwn hyfforddi hynod werthfawr gan yr archwilwyr mewnol, *TIAA,* ar barodrwydd i dderbyn risg yn ei gyfarfod ym mis Medi. Gofynnodd hefyd i'r Cyngor nodi'r canlyniadau archwilio fel yr adroddwyd yng nghofnodion cyfarfod mis Gorffennaf a oedd unwaith eto wedi rhoi'r lefelau uchaf posibl o sicrwydd i'r Cyngor. Diolchodd i swyddogion CGA am y gwaith yn gysylltiedig â sicrhau canlyniad mor llwyddiannus.

8.2 Ategodd y Cadeirydd ddiolchiadau Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Chraffu. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau pellach.

9. Adroddiad y Prif Weithredwr **CGA 33/21**

9.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Cyngor ar ystod o faterion nad oeddent wedi'u cynnwys mewn mannau eraill ar yr agenda, a gwahoddodd sylwadau ac ymholiadau'r aelodau.

9.2 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraffau 4-5, rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad i'r aelodau am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r anghysonderau mewn gofynion cofrestru fel y nodwyd gan CGA. Roedd swyddogion CGA yn cynorthwyo swyddogion Llywodraeth Cymru gyda gwybodaeth ysgrifenedig a llafar a'r gobaith oedd y byddai'r Gweinidog yn ymgynghori ar welliannau deddfwriaethol mewn perthynas â'r materion hyn yn ystod 2022.

9.3 Wrth ymateb i ymholiad aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr na fyddai unrhyw newid posibl yn y ddeddfwriaeth yn cael effaith sylweddol ar adnoddau CGA o ran cofrestru a rheoleiddio gan na fyddai cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestreion yn gyffredinol.

9.4 Mewn ymateb i ymholiad aelod ar ymgysylltu â'r sector annibynnol, nododd y Prif Weithredwr ei fod wedi siarad mewn cynadleddau o Gyngor Ysgolion Annibynnol Cymru a'i fod wedi cael ymateb cadarnhaol.

9.5 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff saith, tynnodd y Prif Weithredwr sylw at nifer o feysydd polisi a chynllunio lle'r oedd CGA yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru. Byddai'r aelodau'n parhau i gael eu diweddaru ar ddatblygiadau yn y maes hwn.

9.6 Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r aelodau nodi'r gwaith ymgysylltu a oedd yn cael ei wneud gyda'r sector staff cymorth fel yr amlinellir ym mharagraffau 16 a 17. Mewn ymateb i ymholiad aelod ynghylch cynrychioliaeth o blith staff cymorth ar baneli'r Cyngor a'r Panel Priodoldeb i Ymarfer, ymatebodd y Prif Weithredwr fod bwriad i recriwtio ar gyfer aelodau ychwanegol i'r panel gan gynnwys cynrychiolaeth staff cymorth ar gyfer gwaith rheoleiddio CGA. Atgoffodd yr aelodau nad oedd gan CGA unrhyw awdurdodaeth ynglŷn â'i aelodau Cyngor am mai penodiadau Llywodraeth Cymru oedd y rhain.

9.7 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r nifer sylweddol o ddigwyddiadau roedd CGA yn eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf fel yr amlinellir ym mharagraff 26. Anogodd yr aelodau i fynychu a nododd y sbectrwm eang o faterion addysgol pwysig a fyddai'n cael sylw.

9.8 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

10. Adolygiad ariannol chwe mis **CGA 34/21**

10.1 Cyflwynodd Lisa Winstone *(Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol)* y papur hwn a roddodd adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor chwe mis i mewn i'r flwyddyn ariannol.

10.2 Nododd y ffaith bod yr adolygiad yn dangos gwarged diwedd blwyddyn o £2,119,703, ond atgoffwyd yr aelodau bod y rhagolwg hwn yn gamarweiniol gan fod y cyfrifon yn dangos incwm blwyddyn lawn yn erbyn gwariant hanner blwyddyn. Cyfeiriodd yr aelodau at y dadansoddiad manwl ym mharagraff tri.

10.3 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraffau 8-10 a oedd yn manylu ar y tanwariant yng nghostau staff. Nododd Lisa Winstone fod dwy swydd uwch wedi bod yn wag am gyfnod nes bod recriwtio llawn wedi'i gwblhau, a bod hyn wedi golygu cronni tanwariant yn y maes hwn. Nododd hefyd nad oedd angen wedi bod am unrhyw staff dros dro o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

10.4 O ran costau uniongyrchol, adroddodd fod parhau â gwrandawiadau Priodoldeb i Ymarfer o bell wedi arwain at danwariant bach. Er bod nifer y gwrandawiadau a'u ffioedd cyfreithiol cysylltiedig wedi parhau'n uchel, roedd gweithio o bell wedi golygu na fu unrhyw wariant ar leoliadau, lluniaeth, llety a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau'r panel. Mewn ymateb i ymholiad aelod ar ddychwelyd i wrandawiadau wyneb yn wyneb, nodwyd y byddai model hybrid yn fwyaf tebygol o gael ei fabwysiadu a fyddai'n rhoi'r dewis i'r cofrestrai fod yn bresennol yn bersonol.

10.5 Gan gyfeirio'r aelodau at baragraff 13, adroddodd am gost Apêl yr Uchel Lys a ddaeth i ben o blaid CGA ym mis Hydref 2021. Er na chyllidebwyd ar gyfer hyn, roedd y tanwariant yn ymwneud â gwrandawiadau o bell yn golygu bod yr alldro a ragfynegwyd wedi nodi tanwariant cymedrol o £21,347 ar gyfer costau uniongyrchol yn erbyn y gyllideb wreiddiol.

10.6 Fel y nodwyd ym mharagraff 15, bu mân orwariant ar orbenion oherwydd prynu offer TG ychwanegol i hwyluso gweithio o gartref. Wrth ymateb i ymholiad aelod ar les staff wrth

weithio o gartref, amlinellodd Lisa Winstone bolisïau ac adnoddau penodol CGA i gefnogi staff gan gynnwys gweithredu agenda lles a rhaglen cymorth allanol i weithwyr.

10.7 Mewn ymateb i ymholiad aelod, cadarnhaodd Lisa Winstone nad oedd unrhyw drothwyon ar waith ar gyfer croniadau oherwydd nad oedd y ddau groniad ariannol mwyaf yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol; gwyliau blynyddol staff a ffioedd cyfreithiol Priodoldeb i Ymarfer.

10.8 Cadarnhaodd Lisa Winstone y byddai'r adolygiad ariannol nesaf ar ôl wyth mis yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

11. Adolygiad chwarterol (1 Gorffennaf – 30 Medi 2021) CGA 35/21

11.1 Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur hwn a roddodd adolygiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau a'r dangosyddion perfformiad a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredol y Cyngor a chynlluniau a strategaethau cysylltiedig eraill. Nododd y cynnydd a wnaed yn ystod ail chwarter y flwyddyn ariannol a nododd fod CGA wedi llwyddo i gyflawni ei holl amcanion fel yr amlinellwyd yn yr adolygiad.

11.2 Ni ofynnodd y Council unrhyw gwestiynau ac roedd yn fodlon derbyn yr adolygiad.

12. Canllaw ymarfer da drafft – 'Mynd i'r Afael â Hiliaeth' CGA 36/21

12.1 Cyflwynodd Bethan Stacey *(Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol, Achredu a Pholisi)* y papur hwn a gyflwynodd ddrafft o ganllaw ymarfer da newydd CGA i'r Cyngor ar 'Fynd i'r Afael â Hiliaeth'. Mae'r Pwyllgor Gweithredol wedi trafod y drafft yn ei gyfarfod ym mis Medi 2021.

12.2 Hysbyswyd yr aelodau bod y drafft wedi'i lywio gan ymchwil helaeth a gynhaliwyd gan dîm Polisi CGA. Roedd swyddogion wedi cydweithio â sefydliadau fel BAMEed a Show Racism the Red Card a oedd ill dau wedi cymeradwyo'r canllaw.

12.3 Roedd yr aelodau'n cytuno y byddai'r canllaw yn cael effaith gadarnhaol ar adeg arbennig o berthnasol ac roeddent yn fodlon cymeradwyo'r canllaw i'w gyhoeddi.

13. Adroddiad cynnydd SAC, Cofrestru a Sefydlu CGA 37/21

13.1 Cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd hwn gan Liz Brimble *(Cyfarwyddwr Cymwysterau, Cofrestru a Phriodoldeb i Ymarfer)* a roddodd ddiweddariad ar waith CGA mewn perthynas â Chofrestru a gweinyddu dyfarnu Statws Athro Cymwysedig (SAC) a Sefydlu.

13.2 Fel diweddariad pellach i'r hyn a adroddwyd ym mharagraff 10, hysbyswyd yr aelodau bod y cynnig mapio ymchwil mewn perthynas â gwaith ieuenctid wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Byddai'r Cyngor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn hyn o beth.

13.3 Gan roi diweddariad i'r aelodau ar y Bil Cymwysterau Proffesiynol, nododd Liz Brimble fod y ddau welliant arfaethedig fel yr amlinellir ym mharagraff 23 wedi'u cymeradwyo ers i'r

adroddiad cynnydd gael ei ysgrifennu. Nododd fod hyn yn gyflawniad sylweddol o ran diogelu rôl reoleiddio CGA.

13.4 Nododd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr y gwaith helaeth a gwblhawyd gan Liz Brimble i sicrhau canlyniad mor gadarnhaol i CGA o ran y Bil Cymwysterau Proffesiynol. Ategodd y Cyngor y farn.

13.5 Roedd yr Aelodau'n fodlon derbyn y diweddariad.

14. Adroddiad cynnydd Priodoldeb i Ymarfer CGA 38/21

14.1 Cyflwynodd Liz Brimble y papur hwn a oedd yn cynnwys diweddariad cyffredinol ar waith Priodoldeb i Ymarfer CGA.

14.2 Gan gyfeirio at baragraffau 2-6, gwahoddwyd yr aelodau i nodi nifer yr achosion sy'n cael eu hystyried gan y tîm Priodoldeb i Ymarfer. Dywedodd Liz Brimble fod y Cyngor ar y trywydd iawn i ddod â'r nifer uchaf o wrandawiadau i ben mewn blwyddyn ariannol.

14.3 Rhoddodd Liz Brimble fanylion pellach i'r aelodau am Apêl yn yr Uchel Lys a wrthodwyd yn ddiweddar o blaid CGA. Nododd ei bod hi a'r Prif Weithredwr wedi bod yn bresennol.

14.4 Fel y nodwyd ym mharagraff 18, roedd canllaw ymarfer da ar arweinyddiaeth yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Cofrestru a Rheoleiddio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2022. Yn ddarostyngedig i argymhelliad y Pwyllgor, byddai'r drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2022.

14.5 Cyfeiriwyd y Cyngor at baragraffau 19-21 a oedd yn amlinellu nifer o sesiynau ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, amlinellodd y mynychwyr mewn sesiynau o'r fath.

14.6 Nid oedd gan yr aelodau unrhyw ymholiadau pellach ac roeddent yn fodlon derbyn y diweddariad.

15. Adroddiad Cynnydd Cyllido Sefydlu CGA 39/21

15.1 Cyflwynodd Bethan Stacey yr adroddiad hwn a roddodd ddiweddariad ar rôl CGA o ran gweinyddu trefniadau cyllido, olrhain a chofnodi ar gyfer Sefydlu yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru.

15.2 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff pedwar a nododd fod nifer yr athrawon newydd gymhwyso a oedd yn ymgymryd â Sefydlu drwy gyfnod cyflogaeth hysbys mewn ysgol wedi cynyddu 556 o'i gymharu â'r llynedd. Roedd atodiad i'r Llythyr Cynnig Grant ar gyfer CGA i ymgymryd â'r gwaith ychwanegol hwn wedi'i gytuno fel yr amlinellir ym mharagraff 16.

15.3 Fel diweddariad pellach i baragraff 17, adroddodd Bethan Stacey fod grant ychwanegol o £900,000 wedi'i gytuno i roi cymorth ariannol ychwanegol i ysgolion er mwyn sicrhau bod ANG yn derbyn eu hawl statudol i gael gostyngiad o 10% yn eu hamserlen ar gyfer gweithgareddau Sefydlu ac ar gyfer darparu Mentor Sefydlu.

15.4 Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r newidiadau a oedd wedi'u gweithredu o ran y rhaglen Sefydlu yng Nghymru fel y cytunwyd gan grŵp rhanddeiliaid y Pecyn Cymorth Gyrfa Gynnar, yr oedd CGA wedi'i gynrychioli arno. Byddai ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei gynnal mewn perthynas ag unrhyw gynigion pellach i newid strwythur y rhaglen Sefydlu yn sylweddol. Byddai'r Cyngor yn parhau i gael ei ddiweddaru ar hyn.

16. Hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg CGA 40/21

16.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a oedd yn rhoi adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl CGA o ran hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysg.

16.2 Fel y nodwyd ym mharagraff dau, roedd yr holl waith datblygu cychwynnol ar gyfer gwefan Addysgwyr Cymru wedi'i gwblhau ac roedd y taliad terfynol gyda'r cyflenwr wedi'i setlo.

16.3 Rhoddodd Bethan Stacey ddiweddariad i'r aelodau am y gwaith ymgysylltu helaeth sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn a nododd fod sgwrs wedi bod gyda dros 600 o unigolion sy'n ystyried gweithio mewn addysg ar draws y digwyddiadau a'r ffeiriau niferus a fynychwyd gan swyddogion CGA.

16.4 Roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

17. Achredu Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) CGA 41/21

17.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a ddarparodd adroddiad cynnydd i'r aelodau ar rôl statudol y Cyngor i achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yng Nghymru.

17.2 Fel y nodwyd ym mharagraff pedwar, roedd Partneriaeth y Brifysgol Agored wedi cyflwyno cais yn ddiweddar i wneud newid mawr i'w rhaglenni achrededig. Roedd y cais hwn yn cael ei ystyried gan y Bwrdd ar hyn o bryd a byddai'r aelodau'n parhau i gael eu diweddaru ar y mater.

17.3 Cyfeiriwyd yr aelodau at baragraff wyth a nodwyd wrthynt bod y broses fonitro ddrafft mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, Estyn a'r holl bartneriaethau Achredu AGA wedi'u datblygu. Roedd trafodaethau pellach gydag Estyn ynglŷn â'r berthynas rhwng monitro cydymffurfiaeth ac arolygu yn ymarferol yn parhau.

17.4 Ni chodwyd unrhyw ymholiadau ac roedd yr aelodau'n fodlon derbyn yr adroddiad cynnydd.

18. Adroddiad ar safonau proffesiynol a phrosiectau tymor byr eraill Llywodraeth Cymru CGA 42/21

18.1 Cyflwynodd Bethan Stacey y papur hwn a roddodd ddiweddariad i'r aelodau ar bum prosiect sydd ar waith ar ran Llywodraeth Cymru.

18.2 Gan gyfeirio at baragraffau 3-4, hysbyswyd yr aelodau bod y Cyngor wedi derbyn i'r Llythyr Cynnig Grant i ddechrau'r cam nesaf o waith o ganlyniad i'r adolygiad ysgafn o'r Safonau Proffesiynol ar gyfer athrawon AB ac ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith. Nododd y cynllun manwl a amlinellwyd ym mharagraff pump.

18.3 Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r diweddariad a ddarparwyd ym mharagraffau 16-18 mewn perthynas â'r astudiaeth mapio safonau AB a SAC. Roedd Gwahoddiad i Ddarparu Dyfynbris wedi'i gyhoeddi i ddarparwr allanol ymgymryd â cham nesaf y prosiect, ond ni dderbyniwyd unrhyw ddyfynbrisiau. Adroddwyd am hyn i Lywodraeth Cymru ac o ganlyniad, roedd y Gwahoddiad i Ddarparu Dyfynbris wedi'i ailgyhoeddi a byddai'n cau ddechrau mis Rhagfyr.

18.4 Roedd y Cyngor yn fodlon derbyn y diweddariad.

19-23. Eitemau er gwybodaeth

Derbyniodd yr aelodau bapurau "er gwybodaeth" ar y canlynol:

- Ymatebion CGA i ymgynghoriadau allanol a cheisiadau am dystiolaeth **(CGA 43/21)**
- Datganiadau data diweddar CGA **(CGA 44/21)**
- Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru **(CGA 45/21)**
- Y Pasbort Dysgu Proffesiynol **(CGA 46/21)**
- Ysgrifenyddiaeth i'r IWPRB **(CGA 47/21)**

Yna symudodd y Cyngor i sesiwn breifat.